

Rhyddid

Darllen: Galatiaid 5:1

Daw'r adnod ar gyfer ein myfyrdod heddiw o un o lythyrau Paul, sef ei lythyr at y Galatiaid. Ysgrifennodd Paul y llythyr er mwyn ymateb i ensyniadau a wnaed gan rai yng Ngalatia oedd yn gwrthryfela yn ei erbyn ef yn bersonol. Roedd Paul am sicrhau ei ddarllenwyr ei fod wedi cyfarfod Iesu wyneb yn wyneb ar ffordd Damascus. Mae'n dangos yn glir iddynt nad cyhoeddi neges ail-law a wnâi, ond neges a dderbyniodd oddi wrth Grist ei hun. Ac mae am eu hargyhoeddi fod y neges honno wedi derbyn sêl bendith arweinwyr yr Eglwys Gristnogol. 'A dyma Iago a Ceffas ac Ioan, y gwŷr a gyfrifir yn golofnau, yn cydnabod y gras oedd wedi ei roi i mi' (Galatiaid 2: 9). Efengyl a ddaeth ato oddi wrth Dduw oedd hi, a'r Eglwys wedi ei chadarnhau. Ac felly, roedd Paul ar dir diogel.

Ond roedd yr Efengyl dan fygythiad. Ymhlith y Galatiaid, roedd yna Iddewon oedd wedi cofleidio'r Ffydd ond a oedd yn dal i gredu bod addewidion a rhoddion Duw ar gyfer yr Iddewon yn unig. Credai rhai ohonynt mai ar gyfer yr Iddewon yn unig yr oedd Cristnogaeth, ac roedd rhai'n credu bod y Cenedl-ddynion wedi eu creu i fod yn danwydd i fflamau uffern. Fe gynddeiriogwyd yr Iddewon cul eu golygon pan welsant Paul yn pregethu i'r Cenedl-ddynion. Ond fe feddylion nhw am ffordd ymwarded. Os oedd Cenedl-ddyn yn dymuno dod yn Gristion byddai'n rhaid iddo'n gyntaf gael ei enwaedu a phlygu i drefn y Gyfraith. Ond roedd hynny yn wrthun yng ngolwg Paul gan ei fod yn gwneud i ofynion iachawdwriaeth ddibynnu ar gadw'r Gyfraith. I Paul, y peth allweddol oedd gras Duw yn cael ei dywallt ar ddynion. I grynhoi felly; ffynhonnell yr anghydfod yng Ngalatia oedd y berthynas rhwng dwy grefydd, y naill wedi'i sylfaenu ar ofynion y ddeddf a'r llall wedi'i sylfaenu ar weithred rasol ac achubol Duw yn Iesu Grist.

Nid i ofynion y ddeddf ond 'i ryddid y rhyddhaodd Crist ni' (5:1). Llythyr rhyddid y Cristion yw'r llythyr at yr Eglwys yng Ngalatia. Yn y drydedd

bennod, mae Paul yn cyflwyno, yn ffurfiol mewn dull diwinyddol, ei ddadleuon o blaid y wir Efengyl, ac yn ymosod yn chwyrn ar y Galatiaid a'u galw'n ffôl am iddyn nhw gael eu twyllo gan yr Iddeweiddwyr. Nid oes gan y Galatiaid y ddirnadaeth foesol nac ysbrydol i'w gwrthsefyll. Mae'n cyfeirio at hanes Abraham er mwyn cael sail i'w ddadl, ac yn gofyn i ba un o arweinwyr y genedl yr addawodd Duw ei addewidion. Ym mha ffordd y derbyniodd Abraham ffafr gyda Duw? Yn sicr, nid trwy gadw'r gyfraith, gan ei fod yn byw yn agos i bedwar cant a hanner o flynyddoedd cyn i'r ddeddf gael ei rhoi i Moses ar Fynydd Sinai, 'Credodd yn Nuw, ac fe'i cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder' (3:6). Galwad ffydd a arweiniodd Abraham i adael ei bobl a mynd allan gan ymddiried y cwbl yn Nuw, 'Gwyddoch, gan hynny, am bobl ffydd, mai hwy yw plant Abraham' (3:7). Nid hualau'r gyfraith sy'n bwysig ond egwyddorion gras, sy'n ein rhyddhau. Mae Cristnogaeth wedi'i sylfaenu ar berson, nid ar lyfr y Gyfraith; a'i grym yw cariad Iesu Grist, nid ufudd-dod i unrhyw ddeddf.

Myfyrdod pellach:

Ydyn ni'n cadw'n rhy gaeth at ofynion traddodiad?

Sut mae dehongli 'rhyddid y Cristion?'